**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Chwefror 2019

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Ionawr ynglŷn â chraffu ar reoliadau yn deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

O dan y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer Ymadael â'r UE, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried swm o ddeddfwriaeth nas welwyd mo'i debyg o'r blaen gan fodloni amserlen fer iawn. Un o'r ffactorau sy'n rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu yn ei gylch wrth gynllunio sut sydd orau i baratoi ar gyfer Brexit yw pennu pa elfennau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'n bwysig sicrhau bod ein dull o ddadansoddi materion cymhwysedd yn gymesur, gan gadw mewn cof ar yr un pryd pa mor bwysig yw diogelu a chadw'r cymhwysedd hwnnw. Rwy'n fodlon bod ein dull yn bodloni'r ddau nod hyn.

Fel y dywedwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru, nid yw'r datganiadau ysgrifenedig yn dweud yn union pa rannau o Offerynnau Statudol (OS) y mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio iddynt oherwydd maent yn cydsynio i'r OS yn gyfan. Pan fo OS wedi'i ddatganoli'n rhannol o leiaf, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried p'un a ydynt am gydsynio ai peidio.

Mabwysiadwyd y dull hwn gan Weinidogion Cymru am nifer o resymau. Pan fo OS wedi'i ddatganoli'n rhannol, bydd yr elfennau sydd heb eu datganoli yn effeithio ar arfer yr elfennau sydd wedi'u datganoli oherwydd bod yr elfennau hyn yn gweithio gyda'i gilydd fel un. Rhaid inni ystyried effaith yr OS ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Cam gwag o safbwynt datganoli yng Nghymru fyddai ystyried y meysydd sydd wedi eu datganoli yn unig.

Mae'n gwbl resymegol mai ystyried p'un a ydy OS o fewn cymhwysedd ai peidio, yn rhannol o leiaf, ddylai gael blaenoriaeth wrth ddadansoddi cymhwysedd. Nid oes datrysiad amlwg i faterion cymhwysedd yn aml. Mae'r elfennau sydd wedi'u datganoli a'r rheini sydd heb eu datganoli o OS wedi'u plethu ynghyd i'r fath raddau mewn llawer o achosion fel y gall bod yn artiffisial ceisio gwahaniaethu rhyngddynt yn bendant. Drwy fabwysiadu dull cymesur

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sy'n canolbwyntio ar effaith yr OS, nid yw'n berthnasol ar unwaith pennu lle yn union mae'r ffin rhwng yr elfennau sydd wedi'u datganoli ac sydd heb eu datganoli o'r OS – y ffaith ein bod yn hyderus bod yr OS yn dod o fewn cymhwysedd i ryw raddau o leiaf sy'n bwysig.

Pan fyddwn wedi dod o hyd i elfen wedi'i datganoli, bydd swyddogion a chyfreithwyr yn gallu canolbwyntio ar ddadansoddi'n fanwl effaith yr OS, negodi ynghylch sut y dylid arfer swyddogaethau, ac ystyried hefyd a ydy'r OS gan Senedd y DU yn cyflwyno dull sy'n gyson ag un Llywodraeth Cymru.

Gofynnwyd yn eich llythyr am wybodaeth am baratoi memoranda esboniadol i gael eu gosod yn Senedd y DU. Yn gyffredinol, nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu deunyddiau fel arfer i Lywodraeth y DU eu cynnwys yn y memoranda esboniadol hyn. Mae'r fersiynau drafft wedi cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru cyn iddynt gael eu gosod yn Senedd y DU, ac mae swyddogion wedi eu hystyried ac wedi rhoi sylwadau fel sy'n briodol.

Sonioch hefyd am y mater o gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys. Hyd yma, nid yw unrhyw un o'r rheoliadau a osodwyd gennym yn y Cynulliad Cenedlaethol wedi diwygio cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys. Mae pob OS sy'n diwygio cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys yn cael ei ystyried fesul achos a bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i adolygu'r dull hwn. Yn yr achosion a welwyd hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cadw at ddull y DU gyfan, yn hytrach na chreu polisïau a strwythurau cyflawni newydd o dan amgylchiadau hynod gyfyngedig Brexit.

Roedd pwerau i ddiwygio cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys wedi eu cynnwys yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ar gais Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cydraddoldeb rhwng y pwerau sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU. Gan fod gennym bwerau i ddiwygio cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys, ein dewis ni yw mabwysiadu dull y DU gyfan fel polisi, yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei orfodi arnom oherwydd nad oes gennym bwerau i wneud fel arall. Mae hyn hefyd wedi rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ystyried sut sydd orau i wneud deddfwriaeth sy'n mynd i'r afael â chyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys.

Yn olaf, gofynnoch am wybodaeth am ba OSau Cymreig yn gysylltiedig ag Ymadael â'r UE nad oeddynt yn ddibynnol ar ddeddfwriaeth y DU. Yn sgil dadansoddi rhaglen ddeddfwriaethol Cymru mewn perthynas ag ymadael â'r UE, daethpwyd i'r casgliad mai Rheoliadau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 oedd yr unig OS Cymreig yn gysylltiedig ag Ymadael â'r UE nad oedd yn ddibynnol ar ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE y DU. Cafodd yr OS hwn ei osod ar gyfer sifftio ar 29 Ionawr, yn unol â'r amserlen. Mae pob OS arall yn cydgysylltu â rhaglen ddeddfwriaethol y DU i raddau mwy neu i raddau llai. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod cyfraith yr UE yn cael effaith ar draws y DU gyfan gan mai'r DU yw'r Aelod-wladwriaeth.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd